### Angen Aelodau am WAREDWR

Fel pobol pob capel ac eglwys Gristnogol, casgliad o bechaduriaid yw pobol Bryn Seion. Yr ydym yn un yn ein hangen am Waredwr, ac yn rhinwedd yr angen hwnnw y deuwn at ein gilydd i addoli. Y mae'r gymdeithas yno'n braf gytûn; byddai'n gyfoethocach yn yr ysbryd petaem yn gallu bwrw ein swildod a rhannu profiadau yn amlach.

***Yr Athro Hywel Teifi Edwards***

### Ceisiwch Deyrnas Dduw

**Darllen Mathew 6**

Y peth sylfaenol ar ein hagenda o ddydd i ddydd yw ceisio Teyrnas Dduw. Y mae'r Deyrnas yn eich calonnau, meddai Iesu Grist, os ydych yn gadael iddo ef ddylanwadu arnoch a thrigo ynoch. Gwrthod y Deyrnas yw gwrthod Iesu Grist, a derbyn y Deyrnas yw derbyn Iesu.

''Rwy'n dewis Iesu a'i farwol glwy'
yn Frawd a Phriod imi mwy;
ef yn Arweinydd, ef yn Ben,
i'm dwyn o'r byd i'r nefoedd wen.'

Ein braint ni felly yw hybu'r deyrnas, sef llywodraeth ddaionus Duw yn ei fyd. Cofiwn mai prif amcan yr Eglwys Gristnogol yw nid ehangu ei thiriogaeth ond hybu buddiannau'r Deyrnas, ac yn arbennig hybu'r gwerthoedd hynny fydd yn clymu ysbrydolrwydd a chyfiawnder gyda'i gilydd. Dylem weithio am undod ymhlith Cristnogion ac undod ymhlith y ddynoliaeth. Sylwch fy mod yn dweud 'undod' ac nid 'undeb'. Cymerwch Undod y Ddynoliaeth fel nod i Gristnogaeth. Daeth y teledu â ni'n agosach at ein gilydd, ond methodd y teledu â'n huno yn un teulu. Yn wir, gallwch brynu diod Coca Cola yn Asswan a Hebron a Jericho, ond mae ar yr Eifftiwr a'r Iddew a'r Palestiniad angen mwy na hynny. Mae angen i'w hysbrydoedd a'u dyheadau a'u hagwedd fod yn Un. Rydym yn byw mewn byd cyfalafol, ond mae'r weledigaeth o Undod y Ddynoliaeth yn dal yn gwbl fregus.

Y mae'r disgybl yn sylweddoli fod yr Eglwys yn llawforwyn i'r Deyrnas. Y cwestiwn sylfaenol i ni yw ansawdd ein cariad at Iesu Grist a'n hymgysegriad iddo, a llwyredd ein gwasanaeth i alwadau Teyrnas Dduw. 'Iesu, Iesu, rwyt ti'n ddigon.' Ai ceisio Teyrnas Dduw a'i gyfiawnder ef yw cymhelliad arglwyddiaethol ein bywyd? A ydym fel disgyblion o ddifrif am orseddu Crist yn ein bywyd beunyddiol a gweld yn amlwg ei ddylanwad iachusol a daionus yn treiddio i ganol cymdeithas?

***D. Ben Rees***